# Addysg / Education

**Atodiad 1**

## Gwasanaeth Adnoddau / Resources Service

Uwch Reolwr / Senior Manager – Owen Owens

Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
owenowens@gwynedd.llyw.cymru

9 Ionawr 2017

**I sylw: Corff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig**

**Ymgynghori ar newid geiriad Cynllun Ariannu Ysgolion mewn perthynas â throsglwyddo balansau ysgolion sy'n cau**

Annwyl gyfaill

Rwyf yn dymuno derbyn eich barn ynglŷn ag addasu geiriad y Cynllun Ariannu Ysgolion mewn perthynas â throsglwyddo balansau ysgolion sy'n cau.

**Geiriad Presennol**

Mae cymal 4.8 o'r ddogfen Cynllun Ariannu Ysgolion presennol yn nodi:

> ***4.8 Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion***
>
> *Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, hyd yn oed lle bo'r ysgol yn olynydd i'r ysgol sy'n cau.*

Fodd bynnag, mae Atodlen 3 o Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn caniatáu amrywio symiau sy'n daladwy i ysgol sydd yn cael ei sefydlu yn sgìl cau un neu ragor o ysgolion i adlewyrchu i ba raddau y mae ysgol sydd wedi'i chau wedi gwario mwy na'i chyfran o'r gyllideb neu nad yw wedi gwario'r cyfan ohoni mewn unrhyw gyfnod cyllido, *h.y. gellir trosglwyddo balansau ysgol sydd yn cau i'r ysgol sydd yn cael eu sefydlu yn ei lle.*

**Addasiad i'r geiriad**

Gofynnir am eich barn mewn perthynas â newid geiriad cymal 4.8 i ddarllen fel a ganlyn:

> ***4.8 Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion***
>
> *Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, heblaw i ysgol a sefydlwyd fel canlyniad i'r cau hwnnw. Mewn sefyllfa o'r fath trosglwyddir y gweddill i'r ysgol newydd o dan ddarpariaethau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.*



Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.llyw.cymru

Mae sawl ystyriaeth o blaid y newid, gan gynnwys:

- Byddai unrhyw arian sydd mewn ysgolion sydd yn cau yn dilyn y disgyblion i'r ysgol newydd.

- O dan y trefniadau presennol fe all bod temtasiwn i ysgolion sydd yn cau wario'r balansau sydd ganddynt er mwyn sicrhau na fyddai'r arian yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Gellir rhagweld y byddai ysgolion sy'n cau yn gwario ar adnoddau (fyddai'n trosglwyddo i'r ysgol newydd) ond nad oedd gwir angen yr adnoddau rheiny ar yr ysgol newydd. Byddai'n llawer gwell bod yr arian yn trosglwyddo i'r ysgol newydd fyddai'n caniatáu i'r ysgol newydd gynllunio defnydd priodol o'r arian yn unol â gofynion y Cynllun Datblygu Ysgol.

- Ni fyddai unrhyw balansau diffygiol yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Fel mae'r Cynllun Ariannu Ysgolion wedi'i eirio ar hyn o bryd, does dim cymhelliant i ysgol sydd yn cau i fyw o fewn ei chyllideb. Byddai newid y geiriad yn hyrwyddo cynllunio ariannol cyfrifol mewn ysgolion gan y rhagwelir na fyddai ysgol sy'n gwybod ei bod yn mynd i gau yn dymuno rhoi unrhyw faich ariannol ychwanegol ar yr ysgol newydd fyddai'n cael ei sefydlu.

Gofynnaf am ymateb eich ysgol i'r cynnig o newid geiriad y Cynllun Ariannu Ysgolion fel y disgrifir uchod **erbyn dydd Gwener, 27 Ionawr, 2017**. Yn dilyn hynny byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar ddydd Mawrth, 7 Chwefror, 2017, gydag argymhelliad y Fforwm yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 7 Mawrth, 2017. Os bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn cymeradwyo'r cynnig mi fydd yn weithredol o 1 Ebrill, 2017.

**Ymateb yr Ysgol**

O safbwynt newid geiriad y Cynllun Ariannu Ysgolion fel bod balansau ysgolion sy'n cau yn trosglwyddo i'r ysgol newydd (yn unol â'r geiriad a nodir uchod), a fyddwch yn datgan os ydy'r ysgol:

| Rhif Ysgol: | | Enw Ysgol: | |
|---|---|---|---|

| O Blaid : | | Yn erbyn : | | Dim barn : | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylwadau: | | | | | |

Dychwelwch eich ymateb i Annie Sanson (anniesanson@gwynedd.llyw.cymru) **erbyn dydd Gwener, 27 Ionawr, 2017.**

Diolch

*Owen Owens*

**Owen Owens**
**Uwch Reolwr Addysg (Gwasanaeth Adnoddau)**